YR HYMNAU.

HYMN *o Hiraeth, am aros ym Mreſennoldeb DUW.*

1 WE L', *Dymma* Borth y Neſoedfŷ,
A *thymma*, Dŷ 'r Goruchaf!
Dymma Le 'r UN, a elwir JAH;
Waith *hyn*, mae 'n ddâ bôd ymma.

2 *Dymma*, lle *mai*, *gwîr* Hâd y Wraig,
Yn llâdd y Ddraig, gyfrwyſâ:
Fe figo ei Siol, ſe 'i tynn o'i Thrâ,
Waith hyn, *&c.*

3 Caiff Angrediniaeth, *ymma* Friw,
Yn Enw DUW JEHOFA:
Ffŷdd i orchfygu gwn y ca,
Waith hyn, *&c.*

4 A'r Fŷd, â Chnawd, a'r Ddrygau llawn;
Trwy GRIST, Ni wnawn Lanaſtra;
Cawn Euddugoliaeth a'r bob Trâ,
Waith hyn, *&c.*

5 Tro i ymma 'n bôd, ni byddaf ḍlawd ;
Cäf wel'd fy Mrawd annwyla,
Caf Eli i wella, f' Enaid clâ' ;
Waith hyn, &c.

6 Cês Nerth i fyn'd o'r *Aipht* i ma's,
Cäf hefyd 'Räs i bara' ;
Ymlaen i *Ganaan* GRIST a'm tynn ;
Waith hyn, &c.

7 Cäf Ran o Wlêdd fy annwŷl GRIST,
Caiff f' Enaid trist ei Walä ;
O'r hyn yn *Unig* a'i boddhä,
Waith hyn, &c.

8 Cäf gyda *Joan* roi fy Mhen,
Ym Mynwes wen 'r *Omega* ;
Ac yno cä', wîr Orphwysfa,
Waith hyn, &c.

9 Gwnewch Bebŷll Chwi Gyfeillion trist,
I *Moses*, CRIST, *Elijah* ;
Fe ddaeth yr JESU, ymma i'n cŵrdd ;
Pwŷ all fyn'd ffwrdd, oddi ymma ?

HYMN, Ffyddlon *yw 'r hwn a* addawodd.

1 DUW Ffyddlon ſawn a pherffaith Fod,
Wyti erjoed, byth i barhäu;
Gwêl Fi, gan drymmed, ydŷw 'r Haint;
Yn ammau Braint, dy Gariad *Mâs*.

2 Tebygais gynt, ŷn *Siwr* dy fôd,
Yn hardd Briod; i'm Henaid I;
Prŷd hynnŷ gall'ſwn roi it ' Fawl,
A honni Hawl o'r Nêf yn hŷ.

3 Ond 'nawr, mor âer, mor farw wŷf,
Blîn yw fy Nglwŷf, ſe wŷr fy NUW;
Rwi 'n methu codi 'm Crî ath Llêf,
Hŷd at y Nêf fel gallwyf fŷw.

4 O ceraiſt Fi, Unwaith fy Jor,
O Ddyfnder Stôr, dy Nerth a'th Rym;
Ym mhell oddiwrthyt, näd im fynd;
Ond *bydd* yn Ffrynd, tragwyddol i'm.

5 O Cofia dy Gyfammod *Nér*,
A'r 'Ddewid bêr, a wneiſt yn rhâd;
O Edrŷch, chwilia, Bêth yw Hŷnt;
Y Gair ſcrifennwŷd *gynt* a Gwäed.

6 Cyflawna Di d' Addewid lon,
Appelia at hon tro ynnof Chwŷth;
Tydi bârhei yr UN mewn Hêdd;
A'th Wirionedd a berû Bŷth.

7 Wel, Dymma 'r Gair o'th Enau ddaeth,
Rhydd hâf y Caeth, gwnâf Frwnt yn lân;
Yſgarlad gwnaf, ſel *Eira* gwyn,
Y Porphor pur lŷn, ſel y Gwlân.

8 Na newid ddim ſâf at dŷ Air,
Can's ffyddlon eair, d' Addewid Di:
Rhô Wain Trugaredd, a'r dy Glêdd;
Hŷd Ddiwedd cär fy Enaid I.

9 Bû Jesu farw drosof Fi,
Trwy Angau dû, a'r Bigau llym;
A thrwyddo cleimiaf, Hawl o'r Nêf;
Ni chollodd Ef, moi Waed am Ddim.

10 Wel, f' Enaid Taw, nac ofnä 'n hwŷ;
Jacheir dy Glwŷ' 'rwi 'n credu 'nawr:
Er gŵgû Drô, daw 'th Frennin cû;
A'th Ofnau 'n Llû. a droir i'r Llawr.

11 Angredû wnês dy Gariad mâd,
Pardŷna, Dädd, nid wŷf ond Llŵch;
Chwanega 'm Ffŷdd, fy Enaid mäg:
Cadw Fi rhäg, Anobaith trwch.

12 O! Cär Fi bŷth tra byddwŷf bŷw,
Dan Adain DUW, bô f Enaid trist;
Gad immi ddôd tu fewn i'r Llen,
Bôed bŷth fy Mhen, ym Mynwes Crist.

HYMN o *Dduwiol Ymddiriad.*

1 FE ffrydiodd Gwâed y nefol Oen,
Trwy ddirfawr Boen o'i Galon,
I'm golchi 'n lân, am dwŷn o'r Tân;
Fy Enaid, cân yn gyffon.

2 'Nawr poffibl ŷw i mi gael bŷw,
Yn Heddwch DUW a'i Ffafar,
Nid âf i'r Tân, medd ſ' ARGLWYDD glân;
O F' Enaid cân yn llafar.

3 Daeth CARIAD màwr, o'r Nêf i lawr,
Rhan hono 'nawr rwi 'n broſio:
Rwi 'n ddigon gwàn ffeîn yw fy Ffân,
O F' Enaid car yr JESU.

4 Angylion fŷr, brâf yw eich Brî,
Fod yn cael crymmu iddo:
Minnau pe câwn, *Angylaidd* Ddâwn,
Mi wn bêth wnâwn o hono.

5 *Cerubiaid* dê' *Seraphiaid* Nêf,
'R y'ch gŷdâg Ef yn waſtad;
Minnau a ddewn, yn ufûdd jawn,
Hŷd attoch pe câwn Gennad.

6 Canſ yn glâu 'r y'ch Chwi bôb rhai,
A phwy all lai nâ hynny?
Tra bo mewn Hŵyl i gadw Gŵyl,
I'r JESU! annwŷl JESU.

7 O llawenhâ fy Enaid cla',
Daw 'r Jesu dâ d' Annwylŷd;
O Enaid Cynn Daw 'r Jesu gwynn,
I'th ddwŷn i Fryn y Gwynfŷd.

8 Mae Hiraeth crŷ fy Arglwydd cû,
Am gael byth dy Gwmpeini:
Tyr'd Jesu mawr, Tyr'd ymma i'r llawr,
Neu Cwŷn Fi 'nawr i fynû.

HYMN, *o Ymddiddian rhwng* Gwyr *à* Gwragedd.

G. WELE, trafaelu 'r y'm at Dduw;
Trwy Rinwedd gwiw Ein Priod:
B. Dilyn 'r y'm, Ol Traed ei Blant,
Ac arnom Chwant, ymddattod:

G. Cyfing, yw 'r Ffordd, a chûl, yw 'r Porth;
Duw fyddo 'n Gymmorth inni:
B. Bêth wedyn câwn, Orphwysfa lâwn,
A pheraidd Rawn i'n llenni.

G. 'R y'm Ni yn agos at y Wlâd,
Lle mae Ein Tâd yn trigo;
B. Ni gawn, Ni wyddom, Cyn bo hîr,
Yn wîr, yn wîr, fynd atto.

G. Ym mhêll trwy Ffŷdd, Ni welwn Oen,
Ar Ben Bryn *Sion* uchel;
B. Fel newydd ladd, yn gwaedu mae,
I'n rhyddhâu o'n Caethiwed.

G. Frŷ

G. Frŷ gyd âg êf, yn fawr eu Bri,
Ni welwn Lû o'r amla;
B. *Hwynt hwy yw 'r Plant, a'r Seinciau eu,*
Sy 'n canû Hâléluiah.

G. Mor ddedwŷdd, O! mor ddedwŷdd yw;
Yr hôll rai bŷw, a welwn:
B. *Câwn fynd i'w Plith, cawn Ddydd heb Nôs;*
Cawn Frodyr o's na 'ngredwn.

G. Pâ Fôdd y gallwn Ni yn jâwn;
Gredû, y Cawn fâth Drigfan?
B. *Bû farw 'n Jesu, dros om Têwch;*
Am hyn Gâd ê wch eich Cwynfan.

G. Pâ Bêth gan hynnŷ dalwn Ni,
Am ei Ddâioni inni?
B. *Ni chais Ef ddim, Gyfeillion Dâ,*
Ond Dîolch, â gwîr Gredû.

G. A'i fellŷ 'mai! O Dad Amen,
Ni fyddwn Lawen ddigon;
B. *Ti 'n ceraiſt Ni, preſwylio gâwn,*
Mewn Byd llâwn o Fendithion.

G. Ffarwel, Dwŷllodrus Fŷd, ffarwel,
I'r Nefoedd, Gwêl, Ni 'n myned:
B. *Trafaelu 'r y'm, Trafaelu a ſwnâwn,*
At Duw, *Ni gawn ei weled.*

G. Ffarwel i bawb o'r Bŷd o'i bron,
Ond ein Cyfeillon hyfrŷd;
B. *Och yn eich Plith, ni ſeſwn Gam,*
Ondrhedwn am, Ein Bywyd.

G. DUW

G. DUW maddâu i Ni, Ni fuom hîr;
Cyn credu 'r Gwîr yſowaeth:
B. *Do, Do, and gwelli, yw Hwyr na Byth,*
Trô ynnom Chwyth, mai Gobaith.

G. O Dewch at Gaiaſ, mae gantho Lê,
I Ni, mêdde E' 'i Hunan,
B. *Dymma Ni'n dyſod Jeſu 'n ſwyt.*
Gollwng Ni, mewn i Ganaan.

G. Bodloni 'r y'm i godi'r Groes,
Doed Dŷdd, doed Nôs, Ni gredwn:
B. *Er gorfod mynd, trwy 'Nialwch maith,*
Trâ bôm ar Daith, cyttunwn.

HYMN o Wahoddiad *i foliannu* DUW, *am ei Gariad rhâd, ac am Gymmorth ei Yſpryd grafuſaf i Greddu* YNGRIST.

1 O! Dêwch Clodforwch Fawrion Nêf,
Ei Ffafr Ef mi gafais;
Rhoes im ei Fam, Bêth all' fei fwyt
Mi wn i bwŷ y credais.

2 Mi fû o 'n hîr yn anmhen ei Râs,
Heb fawr o Flâs a'r Broffes;
Ond 'nawr mi gês Anlygiad mwŷ,
Mi wn i bwŷ, *&c.*

3 Nid i'm Cyfiawnder i fy Hun,
Nac ûn gwâg Eulûn di-lês;
Nage, Nage, mae gennŷf Dŷſt,
Mae im HARGLWYDD CRIST y credais.

4 Mi gês trwy GRIST ty 'n gŷfiawnhâu,
Tyſtiolaeth *mâi* im Mynwes;
Pwy ddichon fy ngondemnio mwŷ,
Mi wn i bwŷ? *&c.*

5 Mi wn mae bŷw yw Mhrynwr I,
Mewn golwg Mi a'i gwelais;
A bŷw fŷdd f' Enaid innau mwŷ,
Can's gwn i bwŷ, *&c.*

6 Rwi 'n gweld trwŷ Ffŷdd y byddai bŷw,
Rhoes Yſpryd Duw im Ernes:
Mi gaf yr Etifeddiaeth mwŷ,
Can's gwn i bwy, *&c.*

7 Ac er bod i'm Elynion câs,
Am ddifa 'r Grâs dderbyniais;
Ni thâl eu Gwaith hwy Flewŷn mwŷ,
Can's gwn i bwŷ, *&c.*

8 Mi gefais Ben *Goliab* i lawr,
Eu Capten mawr mi faeddais;
Mi faedda 'r hôll rài Eraill mwŷ,
Can's gwn i bwy, *&c.*

9 Er gwaetha 'r Cythraul, tua 'r Cnawd,
A'r Bŷd a'i Wawd a'i Ormais;
Mi âf ymlaen tuâ *Chanaan* mwŷ,
Can's gwn i bwŷ, *&c.*

10 Yr hwn ſy 'n dechrau dim Gwaith dâ,
Fe 'i cadarnhâ 'n fy Mhroffes;

Nes mynd i mewn i *Ganaan* mwŷ,
Can's gwn i bwŷ, *&c.*

11 Pan elwŷf trwy 'r *Iorddonen* ddû,
Bydd Hyder Crŷ 'n fy Mynwes;
Nid ofnaf Angâu a'i Golŷn mwŷ,
Can's gwn i bwŷ, *&c.*

12 Ac yno Mi gâf landio i'r lann,
I mewn i'r *Ganaan* gynnes;
Am Ffŷdd a drŷ yn Olwg mwŷ,
Câf weld i bwy, *&c.*

13 A char ei Fron êf byddai bŷw,
Câf ganmol Duw yn gynnes;
Am f' achub I o'm Trueni trist,
Am dwyn at Grist lle credais.

HYMN *am Enedigaeth* GRIST.

1 O Deffro, F' Enaid, na fŷdd Brŷdd,
Cyn êl hi 'n Ddŷdd, attolwg cân;
Daeth Jesu o'i Lê, hardd yw ei Lûn,
I achub Dŷn, rhâg mynd a'r Dân.

2 Ymhatrodd o'i Frenhinol Wisg,
Fe ddaeth i'n Mŷsg Bendigaid fo;
Mewn Preseb gwâel mewn Agwêdd Gwâs;
Ei eni câs bôed hyn mewn Co'.

3 Anfeidrol Râd o ryfedd Rŷw,
I berffaith Dduw, ddyfod yn Ddŷn:
Mewn Anian câs, bû 'r Brenin cûn,
Ef a wnaeth hyn o'i Râd ei Hun.

4 Chwi Bobloedd clywch *angylaidd* Glŷch,
O Ddau tû 'r gwŷch Messiah mawr;
Seinio wnawn Ni, hŷd at y Nen,
Am dorri 'r Llen hyd at y Llawr.

5 At *Bublicanod* mai E 'n mynd,
Mae 'n Ffrynd i Bechaduriaid rai;
Am hyn Mi ai molaf yn fy Mŷw;
Hardd yw ei Liw, P' ôdd gallaf lai?

6 O Tyr'd yn nês, Dragwyddol Naf,
Dy foli wnâf trwy Nerth fy NUW;
Helpwch rai sydd uwch law y Sêr,
I foli 'n bêr ein Jesu bŷw.

7 A Chwithau bawb ſŷdd ymma 'n bôd,
Rhowch Fawl â Chlôd i'r JESU clŷwch;
Fe haeddai Gàn gan bawb mi gwn
I ganmol Hwn, gwnewch Gän yn uwch.

8 Codwch y Groes canlynwch GRIST,
Eneidiau triſt cyffrowch o'r trŵch;
Chwi Ddefaid rhi, Chwi Wŷn bôb rhai
Na wnewch ddim llai na mynd i'r Llŵch.

Moliannus fu dy Enw o DDUW,
9 Moliannus ŷw, ac felly bŷdd,
Amen, Moliannus byth caiff fôd.
Boed Clôd o'r bron it' medda 'n brûdd.

TERFYN.